**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD IAU 28 CHWEFROR 2024 DRWY MICROSOFT TEAMS (09:30 – 11:15)**

**Aelodau'r Comisiwn a oedd yn bresennol:** Michael Imperato (Cadeirydd), Frank Cuthbert (Aelod), Dianne Bevan drwy MS Teams (Aelod), Kalwant Grewal drwy MS Teams (Aelod Annibynnol) ac Andrew Blackmore drwy MS Teams (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Archwilio Cymru a oedd yn bresennol:** Julie Rees drwy MS Teams

**Cynrychiolydd TIAA a oedd yn bresennol:** Steen Gourlay drwy MS Teams

**Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru a oedd yn bresennol:** Sean Gaffney drwy MS Teams

**Swyddogion y Comisiwn a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni), David Carr (Rheolwr Cyllid) a David Burley (Pennaeth Busnes)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023.

## 4. Materion a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Pwyllgor fod camau gweithredu wedi'u cymryd yng nghyswllt mwyafrif y materion a oedd yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

4.2 Roedd yr unig bwynt gweithredu a oedd yn weddill yn ymwneud â sefydlu proses gyfrifyddu ffurfiol ar gyfer ymdrin ag arian y Comisiwn Ffiniau a oedd heb ei wario ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Roedd y mater hwn wrthi'n cael ei ystyried gan Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU, ond nid oedd unrhyw ymateb wedi dod i law ers mis Rhagfyr 2023. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Cyllid yn anfon neges atgoffa drwy ebost i'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i ofyn am ddiweddariad ynghylch cynnydd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Mawrth 2024

## 5. Adroddiad ynghylch Diogelwch TGCh a Data

5.1 Adroddwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.

5.2 Amlinellodd Sean Gaffney brif bwyntiau'r Adroddiad newydd ynghylch Diogelwch TGCh. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y bygythiadau diweddaraf a nodwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, a oedd fwyaf perthnasol i'r Comisiwn. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at effaith Deallusrwydd Artiffisial ar ymosodiadau seiber, a oedd yn golygu bod ymosodiadau o'r fath yn fwy niferus a'i bod yn anos eu hadnabod. Canolig oedd sgôr y Comisiwn ar hyn o bryd ar gyfer cryfder a bregusrwydd o ran seiberddiogelwch, oherwydd bod diweddariadau diogelwch Microsoft yn ddiweddar yn cael eu gosod ar y rhan fwyaf o liniaduron Surface Pro.

5.3 Nodwyd bod nifer yr achosion lle'r oedd y staff yn cael eu twyllo gan negeseuon gwe-rwydo drwy ebost yn parhau'n fach, a oedd yn newyddion cadarnhaol iawn. Er hynny, roedd yna nifer fach o achosion o hyd lle'r oedd y staff yn cael eu twyllo. Holodd y Pwyllgor a oedd unrhyw beth arall y gellid ei wneud i leihau nifer y staff sy'n cael eu twyllo gan ymosodiadau o'r fath. Adroddwyd bod y staff yn cwblhau hyfforddiant blynyddol y Gwasanaeth Sifil ynghylch Diogelwch TG yn ogystal â'r hyfforddiant gorfodol a ddarperir gan KnowBe4 ar ôl i rywun glicio'n anghywir ar ymosodiad gwe-rwydo. O ganlyniad, roedd yn anodd gweld pa fesurau ychwanegol y gellid eu cymryd. Dywedodd Sean Gaffney mai un cam gweithredu pellach posibl fyddai darganfod pwy oedd yr aelod o staff dan sylw a chyfweld yr aelod hwnnw i gael gwybod pam y cafodd ei dwyllo gan yr ymosodiad.

5.4 Holodd yr Aelodau a oedd mesurau rheoli ariannol ar waith i atal taliadau rhag cael eu gwneud wrth i rywun ymateb i'r sgamiau ffugio dwfn a ddatblygir, sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial ac sy'n mynd yn fwyfwy soffistigedig. Cadarnhawyd bod unrhyw daliadau banc a wneir yn gorfod cael eu hawdurdodi gan ddau berson, a'i bod yn ofynnol i uwch-reolwyr adolygu ac awdurdodi unrhyw daliadau a wneir.

5.5 Nodwyd nad oedd yr Aelodau Annibynnol sy'n perthyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gallu cael mynediad i'r hyfforddiant ynghylch Diogelwch TGCh, oherwydd nad oeddent yn rhan o system TGCh y Comisiwn. Roedd hynny hefyd yn golygu bod yna broblemau wrth anfon dogfennau at yr Aelodau Annibynnol, a allai fod yn ddogfennau sensitif. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn wendid yr oedd angen mynd i'r afael ag ef. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth a Cymwysterau Cymru yn ystyried atebion posibl i'r problemau hyn.
**Gweithredu**: Prif Weithredwr/Pennaeth Busnes/Cymwysterau Cymru
**Erbyn**: 30 Mehefin 2024

## 6. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gyfer 2023-24

6.1 Nododd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023-24 ac ni chafodd unrhyw newidiadau eu cynnig.

**7. Archwilio Cymru: Adroddiad Diweddaru**

7.1 Eglurodd Julie Rees nad oedd Cynllun Archwilio ar gyfer 2023 ar gael eto ond y byddai'n cael ei ddosbarthu i'r Aelodau cyn gynted ag y byddai ar gael. Byddai cyfarfod cynllunio gwaith archwilio'n cael ei gynnal rhwng Archwilio Cymru, y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid ddiwedd mis Mawrth 2024.

7.2 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan Julie Rees, a oedd yn rhoi manylion am waith cyfredol ac arfaethedig gan Archwilio Cymru ynghyd â manylion am gyhoeddiadau diweddar a mentrau arfer da.

**8. Archwilio Mewnol: Adroddiadau Archwilio Diwedd Blwyddyn 2023-24 a Chynllun Archwilio 2024-25**

8.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad archwilio a oedd yn ymdrin â Rheoli Risg. Roedd yr adroddiad yn rhoi Sylweddol fel sgôr ar gyfer sicrwydd, ac nid oedd yn nodi unrhyw argymhellion archwilio. Roedd yr adroddiad yn cynnig y dylai'r Comisiwn ystyried ychwanegu sgôr risg darged ar gyfer pob un o'i risgiau. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod rhywfaint o werth yn perthyn i'r cynnig hwn, a chynigiodd Andrew Blackmore gynorthwyo'r Ysgrifenyddiaeth wrth i'r cynnig gael ei ystyried. **Cytunwyd** y dylid trefnu cyfarfod rhwng Andrew Blackmore a'r uwch-reolwyr i drafod y cynnig ymhellach.
**Gweithredu**: Prif Weithredwr/Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Mai 2024

8.2 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad archwilio a oedd yn ymdrin â Rheoli Adnoddau Dynol. Roedd yr adroddiad yn rhoi Sylweddol fel sgôr ar gyfer sicrwydd, yn nodi dau argymhelliad archwilio ac yn cynnig dau gam gweithredu pellach a oedd yn cael eu hystyried gan yr uwch-reolwyr.

8.3 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn ymdrin â'r camau dilynol yng nghyswllt argymhellion archwilio'r flwyddyn flaenorol. Roedd tri o'r pum argymhelliad wedi cael eu gweithredu ac roedd dau yn weddill o hyd. Er hynny, adroddwyd bod un o'r argymhellion a oedd yn weddill, sef y dylai Safonau'r Gymraeg ar gyfer y Comisiwn gael eu hadolygu bob chwarter, wedi cael ei weithredu yn y cyfamser. Roedd yr argymhelliad arall a oedd yn weddill, sef y dylai'r Rheolwr Cyllid arwain yr uwch-reolwr drwy broses y gyflogres, wedi'i ohirio oherwydd newidiadau sylweddol i systemau a gweithdrefnau'r Comisiwn yng nghyswllt y gyflogres.

8.4 Bu'r Pwyllgor yn adolygu'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2024-25, ac roedd o'r farn y dylai'r gwaith o archwilio adolygiadau etholiadol a seneddol gael ei newid er mwyn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond prosesau adolygiadau cymunedol fyddai'n cael eu harchwilio.
**Gweithredu**: TIAA **Erbyn**: 31 Mawrth 2024.

8.5 Roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd y Cynllun Archwilio yn adlewyrchu'n ddigonol y risg sylweddol y mae'r newidiadau i raglen waith y dyfodol yn ei hachosi i'r Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r uwch-reolwyr yn ystyried pa agweddau ar raglen waith y dyfodol allai gael eu hymgorffori yng Nghynllun Archwilio 2024-25, er mwyn i TIAA edrych arnynt.
**Gweithredu**: TIAA **Erbyn**: 31 Mai 2024.

**9. Asesiad Archwilio Mewnol – Holiadur Blynyddol 2023-24**

9.1 Nododd y Pwyllgor holiadur yr asesiad archwilio mewnol, yr oedd disgwyl iddo gael ei ddosbarthu i'r Aelodau er mwyn iddynt ei lenwi. Nodwyd na fyddai'r holiadur yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau Annibynnol newydd, gan nad oeddent wedi bod yn eu swyddi'n ddigon hir i asesu blwyddyn lawn o waith archwilio mewnol. Nodwyd y byddai canlyniadau'r asesiad yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Mawrth 2024

9.2 Nodwyd y byddai canlyniadau'r asesiad yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024. [***Noder: Cafodd cyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024 ei ohirio tan 21 Awst 2024.***]

**10. Holiadur Hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2023-24**

10.1 Nododd y Pwyllgor ganlyniad cwblhau ymarfer hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd yr ymatebion a gafwyd gan yr Aelodau yn cadarnhau bod y Pwyllgor yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf os nad pob un o'r dangosyddion arfer da a oedd yn yr holiadur.

10.2 Codwyd un mater, a oedd wedi'i godi yn ystod blynyddoedd blaenorol hefyd, sef sut yr oedd y Pwyllgor yn gwybod ei fod yn ychwanegu gwerth at y Comisiwn. Nodwyd bod hynny'n cael ei grybwyll fel rheol yn rhan o Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ond nad ymdrinnir â'r mater mewn modd cynhwysfawr. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch sut y gellid mesur cyfraniad y Pwyllgor yn fwy effeithiol. **Cytunwyd** y byddai'r mater yn cael ei gyflwyno i'w ystyried ymhellach yn ystod Diwrnod Strategaeth y Comisiwn.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 12 Ebrill 2024

**11. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ynghylch Cynnydd**

11.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion archwilio mewnol a oedd yn weddill, gan gynnwys y rhai a oedd wedi cael eu gweithredu ers yr adroddiad blaenorol.

11.2 Nodwyd bod yr holl argymhellion archwilio a oedd yn weddill wedi cael eu hystyried dan eitemau 4 ac 8 ar yr agenda.

**12. Adroddiad Blynyddol Drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2023-24**

12.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. **Cytunwyd** y dylid ychwanegu paragraff ychwanegol at adran 8, sy'n ymdrin â heriau rhaglen waith y dyfodol a sut y bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn datblygu er mwyn mynd i'r afael â nhw.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Ebrill 2024

12.2 **Cytunwyd** y byddai manylion ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y testun sy'n sôn am ymadawiad Julie James, a arferai fod yn Aelod Annibynnol, a'i chyfraniad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Ebrill 2024

**13. Datganiad Llywodraethiant Drafft 2023-24**

13.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Llywodraethiant Drafft 2023-24.

13.2 **Cytunodd** y Pwyllgor y dylai'r rhan o'r adroddiad sy'n ymdrin â heriau rhaglen waith y dyfodol gael ei hymestyn a'i chroesgyfeirio at yr adran sy'n ymdrin â hynny yn yr Adroddiad Blynyddol.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 22 Mawrth 2024

13.3 Nodwyd y byddai'r Datganiad Llywodraethiant diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'w fabwysiadu'n ffurfiol yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Mai.

**14. Gwirio Asedau Sefydlog 2023-24**

14.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ynghylch ymarfer gwirio asedau sefydlog 2023-24 a'r canlyniad, sef bod yr asedau i gyd wedi'u nodi a bod cyfrif wedi'i roi amdanynt i gyd.

**15. Adroddiad ynghylch Rheoli Risg**

15.1 Nododd y Pwyllgor y polisi a'r cofrestrau risg cyfredol. Adroddwyd ynghylch manylion y newidiadau a oedd wedi'u gwneud i'r gofrestr risg gorfforaethol a'r gofrestr risg weithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

15.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'r adroddiadau trosolwg ynghylch cofrestrau risg, a gyflwynir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn well pe bai tudalen â chrynodeb ar ffurf dangosfwrdd yn cael ei hychwanegu atynt, a oedd yn crynhoi'r holl wybodaeth bwysig ar un dudalen. Byddai hynny'n ei gwneud yn haws i Aelodau'r Pwyllgor adolygu'r cofrestrau risg. Cynigiodd Andrew Blackmore gynorthwyo i lunio'r crynodeb newydd o wybodaeth. **Cytunwyd** y dylai papurau yn y dyfodol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch y cofrestrau risg gynnwys dangosfwrdd ar un dudalen, sy'n crynhoi newidiadau ac ati.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Ebrill 2024

**16. Cofrestr Risg y Comisiwn ynghylch Pensiynau**

16.1 Nododd y Pwyllgor fersiwn cyfredol cofrestr risg y Comisiwn ynghylch pensiynau, ynghyd â chofnod o'r newidiadau a oedd wedi'u gwneud ers yr adolygiad diwethaf.

**17. Cofrestr Risg y Comisiwn ynghylch TGCh**

17.1 Nododd y Pwyllgor fersiwn cyfredol cofrestr risg y Comisiwn ynghylch TGCh, ynghyd â chofnod o'r newidiadau a oedd wedi'u gwneud ers yr adolygiad diwethaf.

## 18. Prawf ar y Cynllun Parhad Busnes

18.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ynghylch y Prawf ar y Cynllun Parhad Busnes, a gynhaliwyd yn ddiweddar. Holwyd a ddylid rhoi prawf ar yr effaith y byddai symud i leoliad newydd yn ei chael ar barhad busnes. Dywedodd David Burley y byddai'n well rhoi prawf ar barhad busnes ar ôl symud i'r lleoliad newydd, pan fyddai'n bosibl i effaith gweithdrefnau parhad busnes Llywodraeth Cymru gael ei hasesu ar yr un pryd.

18.2 Holodd Kalwant Grewal a fyddai'r Cynllun Parhad Busnes yn elwa o gynllun gweithredu gwell, siart llif ar gyfer cyfathrebu, a metrigau ar gyfer yr amser ymadfer a'r amser canfod digwyddiad. Gofynnodd y Cadeirydd i Steen Gourlay a oedd Cynllun Parhad Busnes cyfredol y Comisiwn, o'i brofiad ef, yn cyd-fynd â chynlluniau sefydliadau eraill sydd o faint tebyg iddo. Dywedodd Steen Gourlay fod TIAA o'r farn bod Cynllun Parhad Busnes y Comisiwn, o'u profiad nhw, yn cyd-fynd â chynlluniau sefydliadau eraill sydd o faint tebyg iddo.

## 19. Rhaglen Waith y Dyfodol

19.1 Nododd y Pwyllgor y papur ynghylch rhaglen waith y Comisiwn ar gyfer y dyfodol. Adroddwyd bod aelod o'r Ysgrifenyddiaeth wedi bod yn cadw cofnod o'r diwygiadau a gynigir i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). **Cytunwyd** y byddai'r dadansoddiad o'r diwygiadau a gynigir yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau.
**Gweithredu**: Prif Weithredwr **Erbyn**: 31 Mawrth 2024

19.2 Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr amserlen recriwtio arfaethedig. Cytunwyd y dylai penodiadau yn y dyfodol gael eu hychwanegu at y Gofrestr Risg ynghylch Rhaglen Waith y Dyfodol.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Ebrill 2024

19.3 Adroddwyd bod y Comisiwn yn dal i aros am y brydles ar gyfer symud i leoliad newydd, a oedd yn cael ei hadolygu o safbwynt cyfreithiol. Y disgwyl oedd y byddai'r brydles yn dod i law yn fuan. Y dyddiad symud arfaethedig oedd diwedd mis Mehefin 2024.

19.4 Adroddodd David Burley fod yr amserlen ar gyfer trosglwyddo'r cysylltiad PSBA i'r lleoliad newydd yn dibynnu ar osod y cabinetau data, a ddylai gymryd rhwng 3 a 4 wythnos i'r contractwr. Yn dilyn hynny, dylai fod modd i BT drosglwyddo'r cysylltiad PSBA ymhen tua 3 mis.

19.5 Nodwyd y byddai angen i bolisïau ynghylch diogelwch TGCh gael eu hadolygu ar ôl symud, gan y byddai'r swyddfa yn y lleoliad newydd yn lle agored a rennir. Roedd rhoi prawf ar ddiogelwch TGCh yn rhan o Cyber Essentials, ond nid oedd yn cynnwys profion hacio; bernid nad oedd hynny'n gost-effeithiol.

19.6 **Cytunwyd** y byddai angen cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg oddeutu canol mis Mehefin i asesu'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â symud i'r lleoliad newydd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Ebrill 2024

## 20. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

20.1 Nododd y Pwyllgor y cofnodion am yr adroddiad ynghylch y gyllideb a oedd wedi'i gyflwyno yng nghyfarfod y Comisiwn ar 31 Ionawr 2024.

## 21. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

21.1 Nododd y Pwyllgor fod yna un achos, yn ystod 2023-24 hyd yma, lle'r oedd y Prif Weithredwr wedi cael cynnig rhodd yr amcangyfrifid ei bod yn werth £20. Roedd y cynnig wedi'i dderbyn.

## 22. Cwynion

22.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd yr un gŵyn wedi dod i law'r Comisiwn ers yr adroddiad diwethaf.

## 23. Adroddiad ynghylch Chwythu'r Chwiban a Thwyll

23.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd yr un achos o chwythu'r chwiban neu o dwyll wedi digwydd ers yr adroddiad diwethaf.

23.2 Nododd y Pwyllgor fod disgwyl i'r Polisi Chwythu'r Chwiban gael ei adolygu erbyn mis Mawrth 2024. Cytunwyd y byddai'r Polisi Chwythu'r Chwiban yn cael ei roi ar agenda cyfarfod y Comisiwn ym mis Ebrill 2024 er mwyn iddo gael ei adolygu.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 24 Ebrill 2024

## 24. Adroddiad ynghylch Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

24.1 Nododd y Pwyllgor y ceisiadau am wybodaeth a oedd wedi dod i law'r Comisiwn rhwng mis Ebrill 2023 a 23 Chwefror 2024, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

## 25. Unrhyw Fater Arall

25.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

## 26. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

26.1 Cytunwyd y byddai'r Rheolwr Cyllid yn gofyn i'r Aelodau am ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd mis Gorffennaf 2024 [***Noder: Cafodd cyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024 ei ohirio tan 21 Awst 2024***], mis Tachwedd 2024 a mis Chwefror 2025.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Mawrth 2024

[***Yn dilyn y prif gyfarfod, cafwyd cyfarfod caeëdig rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r archwilwyr allanol a mewnol***]